# Y CYNGOR 22/10/09

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Tudor Owen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, John Wynn Jones, R L Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, Dewi Lewis, Dilwyn Lloyd, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Sion Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams, Iwan Trefor Jones a Dafydd Lewis (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Rhun ap Gareth (Cyfreithiwr), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Gruffydd Wyn Morris, (Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio), Gareth Jones (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Stephen Barnard (Rheolwr Polisi Adnoddau dynol) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Bob Anderson, Huw Edwards, Christopher Hughes, Sylvia Humphreys, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones, J R Jones, Linda Wyn Jones a June Marshall,

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Dafydd W Roberts

**2 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2009 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Datganodd yr aelodau fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones yn yr eitem Penodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau, oherwydd bod Mr Gwyn Williams, y person a argymhellir i'w benodi, yn gefnder iddo;
- Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd yn yr eitem Lwfansau Aelodau, oherwydd ei fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion;
- Y Cynghorydd Glyn Roberts yn yr eitem Lwfansau Aelodau oherwydd ei fod yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cwynion;
- Y Cynghorydd Dafydd Lloyd Hughes yn yr eitem Strategaeth Asedau Corfforaethol 20009/10 - 2018/19 - Canolfannau Dydd Anabledd Dysgu a Chartrefi Preswyl Anabledd

/Dysgu oherwydd ei fod yn nyrs gymunedol ac yn gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu;

- Y Cynghorydd Dewi Lewis yn yr eitem cais cynllunio C09D/0108/44/R4 - Uned 2, Ystâd Ddiwydiannol Penamser, Porthmadog oherwydd bod llefarydd ar ran y gwrthwynebwyr yn aelod blaenllaw o'i staff;
- Y Cynghorydd Dylan Edwards yn yr eitem cais cynllunio C09D/0108/44/R4 - Uned 2, Ystâd Ddiwydiannol Penamser, Porthmadog oherwydd bod cefnder ei wraig, yn byw gerllaw'r safle.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y trafodaethau ar yr eitem.

(ii) Datganodd yr aelodau fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn yr holl faterion yn ymwneud a Gofal Cartref a thai Cyngor oherwydd bod ei wraig yn derbyn gofal a'i fod yn denant i'r Cyngor;
- Y Cynghorydd Dai Rees Jones yn yr eitem Strategaeth Asedau Corfforaethol 20009/10 - 2018/19 oherwydd ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Canolfan Lon Abaty, Bangor.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd y Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol fuddiant personol ar ran ei hun, ac ar ran y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adrannau, yn yr eitem Strategaeth Arbedion - Ailstrwythuro oherwydd bod y polisi tâl ar gyfer uwch reolwyr yn effeithio arnynt. Gadawsant y cyfarfod yn ystod y trafodaethau ar yr eitem yma.

**4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Anfonwyd cofion a dymuniadau gorau at y rhai oedd yn absennol oherwydd anhwylder a dymunwyd adferiad iechyd buan iddynt.

(b) Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Glyn Roberts a'r teulu ar golli ŵyr bychan mewn amgylchiadau trist iawn;
- Y Cynghorydd Trevor Roberts r golli ei fam yn ogystal â'r Cynghorydd Stephen Churchman ar golli ei fam.

Hefyd cydymdeimlwyd a phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd, fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(c) Llongyfarchwyd y canlynol:

- Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau ar lwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Disgyblion Ysgolion Gwynedd a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau yn ddiweddar - ynghyd a'r athrawon fu'n eu harwain.

(ch) Fel rhan o'r broses i fabwysiadu Strategaeth Arbedion ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2010-13, nodwyd y cynhelir cyfres o weithdai i holl aelodau'r Cyngor ar yr 2ail a 5ed o Dachwedd i sicrhau ymgynghori gyda holl aelodau'r Cyngor ar y dewisiadau a gyflwynwyd gan y penaethiaid i gwrdd â'u cwantwm.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd i holl aelodau fynychu un o'r sesiynau er sicrhau mewnbwn trwch yr aelodau i'r cam hwn, a gofynnwyd i'r aelodau ymateb i'r llythyr yn eu gwahodd i fynychu'r gweithdai.

Llongyfarchwyd y Cadeirydd yn gynnes iawn gan Is-gadeirydd y Cyngor ar ddod yn nain i efeilliaid yn ddiweddar - dwy ferch fach Emily Haf a Chloe Angharad.

## 5 CWESTIYNAU

### (i) Cwestiwn gan y Cynghorydd John Wyn Meredith

"Wedi ystyried yr holl gostau casglu, beth yw'r elw mae'r Cyngor wedi ei wneud o'r gwastraff gardd sy'n cael ei gasglu pob wythnos yn y biniau brown drwy'r Sir".

**Ateb gan y Cynghorydd Gareth Roberts, Uwch Arweinydd Amgylchedd.**

"Diolch am y cwestiwn.

Yn gyntaf, ac fel mater o gywirdeb, dylid nodi nad yw'r Cyngor yn casglu gwastraff gardd yn wythnosol ond yn hytrach pob pythefnos neu bob yn ail wythnos gyda'r gwastraff gweddilliol (bin gwyrdd) yn Ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd, (Arfon ym mis Ionawr).

Mae o ddeutu 15% o wastraff o dai yn wastraff gardd. Mae'r gwastraff hwn yn bydradwy ac mae cyfyngiad statudol ar faint o wastraff pydradwy gellir ei waredu drwy dirlenwi. Mae'r cyfyngiad hwn, sef y 'lwfans tirlenwi gwastraff bwrdeistrefol pydradwy', yn gostwng yn sylweddol pob blwyddyn a phe bai'r Cyngor yn methu cadw oddi fewn i'w lwfans, byddai dirwy sylweddol iawn o £200 pob tunnell dros y lwfans.

O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gasglu ac ymdrin â gwastraff gardd, ynghyd â gwastraff bwyd, i bwrpas sicrhau nad ydyw yn cael ei waredu drwy dirlenwi.

Yng Ngwynedd, mae'r gwastraff gardd a bwyd (bin brown) yn cael ei droi yn gompost yntau yn ein safle Compostio Mewn Llestr yn Ffridd Rasus, Harlech neu mewn cyfleuster cyffelyb yn Penhesgyn, Ynys Môn (menter mewn partneriaeth gyda Chyngor Ynys Môn a Chyngor Conwy).

Mae ein gorsaf compostio yn Harlech, newydd dderbyn achrediad llawn (DEFRA) ar gyfer cynhyrchu compost o'r safon uchaf (PAS100) o wastraff gardd a bwyd. Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wrthi'n sefydlu marchnadoedd (i bwrpas cael incwm) am y cynnyrch ac eisoes wedi derbyn sawl ymholiad i'r pwrpas. Rhagwelir bydd yr orsaf compostio yn Penhesgyn, wedi derbyn yr achrediad llawn, yn marchnata'r compost ymhen blwyddyn.

Felly, nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gwneud elw o gasglu gwastraff gardd ond yn hytrach yn ei gasglu i bwrpas osgoi costau cynyddol tirlenwi; costau treth tirlenwi, ac yn bwysicach, er mwyn osgoi dirwyon sylweddol iawn ar y Cyngor fyddai'n deillio o beidio ei gasglu.

Nodir bod bwriad cyflwyno adroddiad cynhwysfawr ar 'Gyflawni'r Strategaeth Wastraff' i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ar y 3 Rhagfyr, 2009 fydd yn derbyn sylw'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod 25, Chwefror, 2010."

## 6 PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar benodi aelod annibynnol ychwanegol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd bod y Cyngor, ym Mai 2009, wedi penderfynu cynyddu nifer yr aelodau annibynnol ar y pwyllgor o 4 i 5, bod Panel Ymgynghorol wedi ystyried y ceisiadau a ddaeth i law, ac wedi cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD penodi Mr Gwyn Williams yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i wasanaethu am 6 mlynedd.**

## 7 LWFANSAU AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar adfer lwfans i gadeirydd y Pwyllgor Cwynion.

Adroddwyd bod y Cyngor, ym Mai 2009 wedi mabwysiadu cynllun lwfans newydd, a bod y Pwyllgor Cwynion, trwy amryfusedd wedi ei hepgor o'r rhestr o bwyllgorau oedd yn gymwys i ddenu lwfans i'r Cadeirydd. Yn sgil hynny, ataliwyd y lwfans a gofynnwyd i'r Cyngor gywiro'r sefyllfa ac adfer y lwfans i Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion.

**PENDERFYNWYD diwygio cymal 4.1.5 o'r Cynllun Lwfansau drwy gynnwys y Pwyllgor Cwynion fel un o'r pwyllgorau sydd i ddenu lwfans i'r Cadeirydd ac i'w ôl-ddyddio i ddechrau'r flwyddyn ariannol.**

## 8 CRAFFU SWYDDOGAETHAU TROSEDD AC ANHREFN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, ar ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Gofal i gynnwys swyddogaethau statudol trosedd ac anhrefn.

Yn sgil deddfwriaeth newydd, adroddwyd bod angen i'r Cyngor gael pwyllgor craffu i dalu sylw i faterion trosedd ac anhrefn. Fel rhan o'r newidiadau, bydd y Cyngor yn craffu gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r materion sy'n codi yn y Bartneriaeth honno.

Eglurwyd bod y dyletswyddau'n perthyn yn agos i faes llafur Pwyllgor Craffu Gofal, bod y pwyllgor wedi ystyried ychwanegu'r dyletswyddau i'w gylch gorchwyl, ac wedi argymell i'r Cyngor ehangu ei gylch gorchwyl i gynnwys craffu materion trosedd ac anhrefn, ac ymestyn aelodaeth y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**(a) (i) Ehangu cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Gofal i gynnwys y swyddogaeth statudol i graffu materion trosedd ac anrhefn gan ymgynnull i'r diben hwn o leiaf unwaith y flwyddyn;**
**(ii) Gwahodd cynghorydd sy'n cynrychioli Gwynedd ar Awdurdod yr Heddlu i gyfarfodydd y pwyllgor fel sylwedydd;**
**(iii) Cyfethol dau aelod ychwanegol (heb bleidlais) i'r pwyllgor, y naill i gynrychioli Heddlu Gogledd Cymru a'r llall i gynrychioli'r bwrdd iechyd lleol.**

**(b) Awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud diwygiadau canlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor.**

## 9 DIWYGIO'R CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG I SWYDDOGION

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar ychwanegu hawliau dirprwyedig i reolwr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru.

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am weinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru ar ran y Cynulliad, mewn partneriaeth â chynghorau eraill y Gogledd.

Roedd swyddogaethau rhedeg yr asiantaeth wedi eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd yn yr hen gynllun dirprwyo, ond pan newidiwyd strwythur y Cyngor, ni ddirprwywyd y swyddogaethau ymlaen i swyddog dan y strwythur newydd.

Bellach mae angen enwebu swyddogion unigol i weithredu fel Swyddogion Traffig dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ar y rhwydwaith cefnffyrdd ar draws Gogledd Cymru. Credir mai Rheolwr yr Asiantaeth yw'r swyddog mwyaf priodol i gyflawni'r swyddogaethau.

**PENDERFYNWYD diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion trwy ychwanegu'r cymalau isod:**

**"4.7 <u>Rheolwr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru</u>**
**4.7.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd, o fewn y cynllun, a dan gyfarwyddyd y Bwrdd Asiantaeth i gyflawni swyddogaethau Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru**
**4.7.2 Penodi swyddogion traffig dan adran 2 Deddf Rheoli Traffig 2004**

## 10 AELODAU CYFETHOLEDIG AR Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar benodi aelod cyfetholedig ychwanegol ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

Adroddwyd bod nifer y cynrychiolwyr oedd gan Fforwm Undebau Athrawon y sir ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi ei gwtogi mewn blynyddoedd diweddar. Ystyriwyd cais gan y Fforwm i gynyddu nifer eu cynrychiolwyr ar y pwyllgor craffu, ac argymhellwyd i'r Cyngor gynyddu'r gynrychiolaeth o un i ddau.

**PENDERFYNWYD cyfethol un aelod ychwanegol heb bleidlais i gynhyrchiol Fforwm Athrawon y sir ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ac felly cynyddu cynrychiolaeth yr undebau o un i ddau.**

## 11 UNED BENTHYCIADAU ARIAN ANGHYFREITHLON CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Pennaeth Rheoleiddio ar drefniadau i ganiatáu i Uned Benthyciadau Arian Anghyfreithlon weithredu yng Ngwynedd.

Adroddwyd bod y brif ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r diwydiant credyd wedi ei dirprwyo i'r Pennaeth Rheoleiddio yng Ngwynedd, a gorfodaeth o'r Ddeddf wedi ei awdurdodi ganddo i swyddogion yn Uned Safonau Masnach.

Yn dilyn prosiectau peilot llwyddiannus i ymchwilio i weithgaredd benthyca anghyfreithlon a dod a drwgweithredwyr i gyfraith, llwyddodd Cymru i gael arian ar gyfer cyllido prosiect.

Dewiswyd Cyngor Sir Caerdydd i arwain y prosiect, ac mae'r Uned yn awyddus i ymestyn ei weithgareddau ar draws Cymru gyfan. Er mwyn eu hymestyn i Wynedd byddai angen awdurdodi'r swyddogion yn briodol a threfnu i drosglwyddo'r prosesau i Gyngor Sir Caerdydd fel yr awdurdod arweiniol.

**PENDERFYNWYD sefydlu cytundeb gyda Chyngor Sir Caerdydd yn unol ag Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972, adrannau 19 a 32 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliad 15 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru), 2007 i ganiatáu i Gyngor Sir Caerdydd gyflawni'r swyddogaeth o orfodi Rhan III o Ddeddf Credyd Cwsmeriaid 1974 o fewn Gwynedd**

**12 CYNLLUN CLUDIANT RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU A CHYNLLUN CLUDIANT RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar Gynllun Gludiant Gogledd Cymru a Chynllun Cludiant Rhanbarthol Canolbarth Cymru i'w mabwysiadu gan y Cyngor.

Adroddwyd bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynhyrchu cynlluniau cludiant lleol. Mae chwe awdurdod Gogledd Cymru, sy'n rhan o gonsortiwm cludiant TAITH wedi cydweithio i gynhyrchu cynllun Gogledd Cymru ,a thri awdurdod canolbarth Cymru sy'n rhan o gonsortiwm TraCC wedi cydweithio ar gynllun y Canolbarth.

Nodwyd bod Bwrdd y Cyngor wedi rhoi sylw i'r cynlluniau, ac wedi argymell i'r Cyngor eu mabwysiadu.

Nododd aelod siom am nad oedd uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy yn rhan o'r cynlluniau.

**PENDERFYNWYD**

**(i) mabwysiadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru.;**

**(ii) cyfleu siom y Cyngor wrth TraCC am nad yw uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy yn rhan o'r cynlluniau, a gofyn iddynt roi blaenoriaeth i ddatblygu'r rheilffordd a'i hintegreiddio gyda rheilffordd arfordir Gogledd Cymru.**

**13 STRATEGAETH ASEDAU CORFFORAETHOL 2009/10 – 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Strategaeth Asedau Corfforaethol y Cyngor, i'w mabwysiadu gan y Cyngor.

Bydd y Cynllun yn blaenoriaethu'r holl ofynion cyfalaf sy'n debygol o ddisgyn ar y Cyngor yn erbyn yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael.

Mae'n seiliedig ar y dyraniad ariannol cyfredol a dderbynnir gan y Cynulliad, a bydd angen ailymweld â'r Cynllun yn y dyfodol fel canlyniad i'r gostyngiad tebygol yn nyraniad cyfalaf awdurdodau lleol mewn blynyddoedd canlynol.

Mae'r Archwiliwr Dosbarth o'r farn y gall y Cyngor, trwy'r ddogfen, ateb y diffyg yn y strategaeth rheoli asedau, ac yn debygol o allu cwrdd â gofynion defnyddwyr os cyllidir y gyfundrefn yn ddigonol a rhoddir cefnogaeth boliticaidd i'r broses.

Nodwyd ymhellach:-

- y bydd cymeradwyaeth y Cyngor o'r cynllun yn awdurdodi'r swyddogion i symud ymlaen i ymdrin â'r eiddo sydd yn y rhaglen heb gyfeirio'r materion unigol i'r pwyllgorau ardal am benderfyniad;
- bod asedau sy'n ymwneud ag ysgolion yn fater ar wahân sy'n derbyn sylw o dan Strategaeth Ysgolion y Cyngor, a bod gwaredu ysgolion neu safleoedd ysgolion yn cael eu hadrodd i bwyllgorau ardal briodol gydag aelodau'n cael mewnbwn i'r broses trwy'r pwyllgorau ardal;
- y bydd aelodau unigol hefyd yn cymryd rhan lawn yn y broses wrtho waredu asedau yn eu wardiau. Nodwyd bod gan aelodau lleol llawer i gyfrannu i'r broses gan eu bod yn meddu ar wybodaeth leol werthfawr.

Nodwyd bod Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd wedi argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Strategaeth. Hefyd cymeradwywyd defnyddio £118,674 o dderbyniadau cyfalaf ar gyfer cyflogi syrfëwr dros dro ar gytundeb am dair blynedd er mwyn cyflymu'r broses o werthu asedau'r Cyngor.

Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar benawdau penodol mewn ymateb i ymholiadau aelodau.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â phris gwerthu Ysbyty Bron y Garth, eglurodd Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd y manylion yn ei feddiant ac addawodd anfon y wybodaeth at holl aelodau'r Cyngor yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Strategaeth Asedau Corfforaethol.**

## 14 CYNLLUN TAIR BLYNEDD Y CYNGOR (RHAN 2)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar Cynllun Tair Blynedd (Rhan 2) i'w fabwysiadu gan y Cyngor.

Yn ogystal â'r wybodaeth a geir o fewn y Cynllun Tair Blynedd lawn, rhaid adrodd yn flynyddol ar berfformiad y Cyngor ar y prif welliannau a dangosyddion.

Cyflwynwyd manylion parthed perfformiad y Cyngor ar holl welliannau a dangosyddion y Cynllun Tair Blynedd ar ddiwedd 2008-09.

'Roedd y pwyllgorau craffu unigol wedi ystyried y perfformiad yn erbyn y gwelliannau a'r dangosyddion eisoes, ac 'roedd y Prif Bwyllgor Craffu wedi ystyried a herio cynnwys yr adroddiad er mwyn sicrhau fod darlun cywir o berfformiad y Cyngor ar faterion y Cynllun Tair Blynedd.

Hefyd roedd y Bwrdd wedi rhoi sylw i'r Cynllun ac wedi cymeradwyo'r ddogfen fel adlewyrchiad cywir a theg o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2008/09, ac wedi argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bod lle i ymfalchïo ym mherfformiad y Cyngor yn ystod cyfnod anodd a diolchodd i staff ac aelodau am eu cyfraniad i'r gwaith.

Mewn ymateb i ymholiad eglurodd y Prif Weithredwr bod bygythiadau i'r Cyngor oherwydd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a'i bod yn debygol y bydd angen ail edrych ar uchelgais, dangosyddion a thargedau yn y Cynllun Tair Blynedd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) cymeradwyo'r ddogfen fel adlewyrchiad cywir a theg o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2008/09, a'i fabwysiadu.**

**(b) awdurdodi'r Pennaeth Adran Strategol a Gwella i wneud unrhyw gywiriadau, ychwanegiadau neu newidiadau golygyddol angenrheidiol cyn cyhoeddi**

## 15 ADOLYGU GWERTHOEDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr ar fabwysiadu gwerthoedd y Cyngor.

Adroddwyd bod adolygu gwerthoedd y Cyngor, yn un elfen o'r rhaglen i newid diwylliant y Cyngor sydd yn y Cynllun Tair Blynedd.

Dengys gwaith ymchwil nad yw'r gwerthoedd presennol yn wybyddus a byw, a bod cytundeb y dylid cael gwerthoedd cadarn a byw ar gyfer y Cyngor.

Casglwyd awgrymiadau gan aelodau etholedig, staff a dinasyddion, ac fe'u defnyddiwyd yn sail i gynigion y Gweithgor Gwerthoedd sydd yn yr adroddiad.

Mae'r cynigion yn sefydlu nod o gyflawni'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory, ac wedi ei sylfaenu ar roi pwyslais ar wasanaethu; bod yn bositif; dangos parch; gweithio fel tîm a gwerth am arian.

Nodwyd bod y Bwrdd wedi rhoi sylw i'r mater ac wedi argymell y gwerthoedd i'r Cyngor.

Diolchodd y Prif Weithredwr i bawb oedd wedi bod ynghlwm a'r gwaith. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig bod y gwerthoedd yn rhai byw, a bod bwriad rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn byw'r gwerthoedd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynigon a'u nod fel gwerthodd y Cyngor**

## 16 STRATEGAETH TAI LLEOL GWYNEDD 2009-2012

Cyflwynwyd adroddiad Dafydd Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Strategaeth Tai Lleol Gwynedd a Chynllun Gweithredu 2009-2012 i'w mabwysiadu gan y Cyngor.

Adroddwyd bod angen i'r Cyngor gynhyrchu Strategaeth Tai Lleol sy'n asesu anghenion tai cyfredol ac anghenion penodol yr ardal, cynllunio ar gyfer gyfarch yr anghenion hynny, a chyflwyno'r strategaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

Crynhoir yn y ddogfen gyfeiriad strategol y sefyllfa dai ar draws Gwynedd am y 3 blynedd nesaf a thu hwnt. Nodwyd bod llawer o strategaethau o fewn y ddogfen sydd wedi eu cymeradwyo eisoes gan aelodau.

Ar ôl trosglwyddo'r stoc tai i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, bydd y Cyngor yn parhau i gyflawni dyletswyddau statudol, a bydd angen sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau tai a gedwir.

Sefydlwyd Partneriaeth Tai Gwynedd i weithredu ar nifer o themâu strategol o fewn Cynllun Gweithredu'r Strategaeth.

Nodwyd bod y Bwrdd wedi argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu cyn eu cyflwyno i'r Cynulliad.

Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar faterion penodol mewn ymateb i ymholiadau aelodau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Strategaeth Tai Lleol Gwynedd a'r Cynllun Gweithredu 2009-2012, i'w cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad**

**17 STRATEGAETH ARBEDION - AILSTRWYTHURO**

(a) Cyflwynwyd:-
(i) Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyflwyno polisi tâl ar gyfer uwch reolwyr;
(ii) Adroddiad annibynnol gan gwmni Hay ar Adolygiad Arfarnu Swyddi Prif Swyddogion;

(b) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor;

(c) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Prif Weithredwr er mwyn sicrhau eglurder ynglŷn ag elfennau o'r adroddid.

(ch) Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

(d) Cynigiwyd ac eiliwyd gohirio penderfyniad, ac adolygu'r sefyllfa ymhen tair blynedd pan fydd mwy o wybodaeth ac eglurder ynglŷn â sefyllfa ariannol y Cyngor.

Eglurodd y cynigydd ei fod yn awyddus i'r Cyngor ohirio'r mater oherwydd sefyllfa argyfyngus y Cyngor, oedd yn wynebu tair blynedd o arbedion sylweddol fydd yn golygu gwaredu asedau, diswyddo staff a thorri ar wasanaethau. Ymhellach nododd bod sefyllfa'r Cyngor yn aneglur ac yn ansicr ymhen tair blynedd.

Nodwyd sylwadau aelodau oedd yn cefnogi gohirio penderfyniad ar y mater, fel a ganlyn:-

- bod staff y Cyngor yn colli swyddi oherwydd toriadau, a byddai codi cyflogau uwch reolwyr yn cael effaith drychinebus ar forâl ac ewyllys da'r staff;
- bod llawer o drethdalwyr yn crafu byw ac yn pryderu am golli eu gwaith, a byddai cynyddu cyflog uwch reolwr hyd at 11% yn cythruddo'r cyhoedd ac yn dangos diffyg sensitifrwydd i sefyllfa llawer o drigolion y sir;
- bod gwasanaethau dan fygythiad, a byddai codi cyflogau uwch reolwyr yn drychinebus i ganfyddiad ac ewyllys da trethdalwyr;
- bod newid sylweddol i sefyllfa ariannol y Cyngor ers dechrau'r broses a bod y dyfodol yn ansicr iawn;
- bod gwleidyddion blaenllaw San Steffan wedi galw am rewi cyflogau uwch reolwyr awdurdodau lleol, ac ni ddylid mynd yn groes i'r farn honno;

(e) Adroddodd Arweinydd Adnoddau Dynol ei fod wedi newid ei feddwl ynglŷn â'r polisi tâl, ac nid oedd yn fodlon cynnig yr argymhellion oedd gerbron.

Yn dilyn ad-drefnu uwch reolaeth y Cyngor yn Rhagfyr 2008, er mwyn cyflawni arbedion, eglurodd yr aelod ei fod wedi cytuno i gomisiynu adolygiad annibynnol o delerau ac amodau uwch reolwyr y Cyngor - ar y ddealltwriaeth na fyddai rheidrwydd i weithredu yn dilyn yr adolygiad.

Yna ar ôl cyhoeddi adroddiad Hay ym mis Medi, derbyniodd gyngor cyfreithiol y dylai gefnogi'r polisi tal, ac fe gydsyniodd i hynny.

Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddiadau ddechrau Hydref ynglŷn â chau 5 ysgol ym Mro Dysynni, codi pris cinio ysgol, codi tal teithio i ddisgyblion chweched dosbarth, a chodi tâl gofal dibreswyl, eglurodd ei fod wedi penderfynu nad oedd yn bosibl iddo gefnogi'r polisi mwyach, ac na ddylid cyflwyno'r cynigion i'r Cyngor.

Pwysodd ar y Cyngor i ohirio penderfyniad ar y mater tan fydd y sefyllfa'n fwy eglur.

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol i ohirio penderfyniad ac adolygu'r sefyllfa ymhen tair blynedd pan fydd mwy o wybodaeth ac eglurder ynglŷn â sefyllfa ariannol y Cyngor.

**O blaid: (31)** Y Cynghorydd Anwen Davies, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Brian Jones, Eric Merfyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Keith Marshall, Llinos Merks, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, Gwilym Euros Roberts, John Pughe Roberts, Sion Roberts, Trevor Roberts, Guto Rhys Tomos, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Yn erbyn: (35)** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, John Gwilym Jones, John Wynn Jones, R L Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, Dewi Lewis, J Wynn Meredith, Linda Morgan, W Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, Liz Saville Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, J.W.Williams, a R H Wyn Williams.

**Atal pleidlais (0)**

Adroddodd y Cadeirydd bod y cynnig wedi methu.

(g) Gyda chytundeb cynigydd ac eilydd yr argymhelliad gwreiddiol, derbyniwyd gwelliant bod argymhellion yng nghymalau 5.1-5.4 o adroddiad y Prif Weithredwr yn digwydd dros ddwy flynedd oddi ar 1 Ebrill 2009.

Nododd y cynigydd ei fod yn sicr bod gan y Cyngor ymrwymiadau a dyletswyddau cyfreithiol o ran tâl i swyddogion sy'n derbyn cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ail-strwythuro a bod risgiau eraill o beidio gweithredu.

Nodwyd y sylwadau canlynol i gefnogi'r argymhellion a'u gweithredu dros gyfnod o ddwy flynedd:-

- bod yr ail-strwythuro corfforaethol yn ei gwneud yn haws creu cyfleoedd ar gyfer arbedion pellach, ac mai'r unig ffordd arall o gyflawni'r arbedion fyddai torri ar wasanaethau rheng flaen;

- bod y polisi arfaethedig yn enghraifft o fuddsoddi i arbed ac yn cynrychioli gwerth am arian gyda buddsoddiad o £40,000 yn esgor ar arbedion o £1m;
- bod adroddiad Hay a gomisiynwyd i adnabod cyfrifoldebau ychwanegol o fewn y strwythur cyflog presennol wedi nodi diffyg o beidio cael polisi tâl priodol ar gyfer uwch reolwyr;
- bod risg o fethu cadw a denu uwch reolwyr os na weithredir y newidiadau arfaethedig;
- bod risgiau niferus ynghlwm â pheidio gweithredu sef problemau cytundebol gan fod yr uwch reolwr wedi derbyn cyfrifoldeb ychwanegol, trafferthion yn ymwneud a chydraddoldeb a chyfle cyfartal pe glynir wrth y trefniadau tal presennol;
- bod yr uwch reolwr wedi derbyn y cyfrifoldebau ychwanegol ar y ddealltwriaeth y byddant yn cael eu trin yn deg;
- bod y Cyngor wedi mynd i afael a chyflog cyfartal ar gyfer staff eraill y Cyngor a bod angen trin yr holl weithlu'n gyson;
- pe gymeradwyir yr argymhellion, byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu uwch reolaeth am y gost isaf yng Ngogledd Cymru, a byddai'n is na'r cyfartaledd ar gyfer holl gynghorau Cymru.

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol i gymeradwyo'r argymhellion a amlinellir yng nghymalau 5.1-5.4 yn adroddiad y Prif Weithredwr, a bod yr argymhellion yn digwydd dros ddwy flynedd oddi ar 1 Ebrill 2009.

**O blaid: (37)** Y Cynghorydd Stephen Churchman, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, John Gwilym Jones, John Wynn Jones, R L Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, Dewi Lewis, J Wynn Meredith, Linda Morgan, W Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, Liz Saville Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, J.W.Williams a R H Wyn Williams.

**Yn erbyn: (29)** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Trefor Edwards, T G Ellis, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Brian Jones, Eric Merfyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Keith Marshall, Llinos Merks, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, Gwilym Euros Roberts, John Pughe Roberts, Sion Roberts, Trevor Roberts, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Atal pleidlais (0)**

**PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo argymhellion 5.1 hyd 5.4 yn adroddiad y Prif Weithredwr i ddigwydd dros ddwy flynedd oddi ar 1 Ebrill 2009, yn unol â'r manylion yn y tabl isod:-**

| Lefel y Swydd | Rôl | Cyflog Presennol | Cyflog Arfaethedig | Mwyafrif Cost y Cyflog |
|---|---|---|---|---|
| **2** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | **83,121** | **83,121** | **0** |
| **3** | **Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Pennaeth Addysg** | **68,598**<br><br>**65,169** | **72,200**<br><br>**72,200** | **3,602**<br><br>**7,031** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | **Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **65,169** | **65,169** | **0** |
| | **Pennaeth Cyllid** | **65,169** | **65,169** | **0** |
| | **Pennaeth Gofal Cwsmer** | **58,311** | **65,169** | **6,858** |
| | **Pennaeth Rheoleiddio** | **58,311** | **65,169** | **6,858** |
| | **Pennaeth Economi a Chymuned** | **58,311** | **65,169** | **6,858** |
| | **Pennaeth Darparu a Hamdden** | **61,740** | **65,169** | **3,429** |
| | **Pennaeth Adnoddau Dynol** | **61,740** | **65,169** | **3,429** |
| | **Pennaeth Strategol a Gwella** | **61,740** | **65,169** | **3,429** |
| | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** | **65,169** | **65,169** | **0** |
| 5 | **Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **58,311** | **58,311** | **0** |

**(ii) Bod deiliaid y swyddi sy'n derbyn cynnydd yn cael eu cymhathu ar uchafswm y raddfa newydd;**
**(iii) Bod cyfanswm costau cynnydd yn y gyflogaeth o £41,494 ynghyd a'r argostau cysylltiedig yn cael eu hariannu o gyllideb wrth gefn yr awdurdod;**
**(iv) Bod y Cyngor yn ymgymryd ag adolygiadau tâl achlysurol er mwyn sicrhau bod polisi tal uwch reolwyr yn parhau'n gyfredol.**

## 18 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21

(A) Adroddwyd, er gwybodaeth
(i) bod y nifer priodol o aelodau wedi rhoddi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno cyfeirio Cais C09D/0108/44/R4, sef cais Uned 2, Ystâd Ddiwydiannol Penamser, Porthmadog o'r Pwyllgor Cynllunio Canolog a gynhaliwyd at 8 Medi 2009 i'r Cygnor llawn:
(ii) bod Pwyllgor Cynllunio Dwyfor wedi gwrthod y cais ar sail sŵn a llygredd, bod y mater wedi ei alw i'r canol, a bod y Pwyllgor Cynllunio Canolog wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD**

**a) Caniatáu'r datblygiad gyda'r amodau canlynol i sicrhau rheolaeth cynllunio briodol yn y meysydd canlynol -**

**i) Cydymffurfio gyda manylion a chynlluniau'r cais ond angen cyflwyno drwy amod cynllunio, manylion llawn y cyfarpar llwytho a dadlwytho gan gynnwys lleoliad, dyluniad a math o strwythur i amgáu'r safle llwytho/dadlwytho ac unrhyw beiriannau a ddefnyddir ar gyfer y pwrpas hwn.**

**ii) Rheoli allyriadau sŵn –**

- **Amcangyfrif y nifer o loriau i fod tua chwe llwyth y dydd, gyda dim ond un llwyth y dydd ar gyfer cludo gwydr (tua chwe llwyth gwydr mewn wythnos).**
- **O ganlyniad, bydd angen un lori'r wythnos ar gyfer trosglwyddo'r casgliadau gwydr oddi ar y safle, a'r gweithgaredd yma i'w gynnal tu cefn i'r adeilad.**
- **Angen cytuno ar fesuriadau gweithredol i sicrhau bod unrhyw lwytho/dadlwytho deunyddiau am gyfnod cyn lleied â phosibl.**
- **Bae 4 a 5 yn unig ar gyfer pentyrru caniau a gwydr**
- **Angen amod ar gyfer rheoli, mesur a monitro uchafswm y sŵn pan mae**

**gweithgareddau llwytho a dadlwytho gwydr a chaniau yn cymryd lle. Cymryd camau i fonitro lefelau sŵn pan yn llwytho/dadlwytho am gyfnod arbrofol o flwyddyn.**

**iii) Oriau gwaith i fod rhwng 7.00 a 18.00 – dydd Llun i ddydd Sadwrn ond ddim gweithio ar y Sul, ond cyfyngu ar yr oriau ar gyfer llwytho/dadlwytho gwydr a chaniau fel a ganlyn –**

- **Dim llwytho/dadlwytho rhwng 7.00am a 9.00am dydd Llun i ddydd Gwener**
- **Dim llwytho/dadlwytho rhwng 5.00pm a 7.00pm dydd Llun i ddydd Gwener**
- **Llwytho/dadlwytho'n unig rhwng 9.00am a 1.00pm ar ddydd Sadwrn**

**iv) Dim ond deunyddiau ailgylchu sych a ganiateir, sef papur, gwydr, plastigion, caniau a chardfwrdd. Ni chaniateir cludo gwastraff bwyd i'r safle.**

**v) Dim cadw na didoli deunyddiau gwastraff na sgips tu allan i'r adeilad.**

**vi) Sicrhau dim llygredd dŵr.**

**vii) Cyfyngu llwytho/dadlwytho i gefn y safle a dim llwytho na dadlwytho deunyddiau drwy'r drws ar ochr yr adeilad sy'n wynebu'r brifford A497 a'r ystâd tai cyfagos.**

**viii) Dim newidiadau i edrychiadau allanol yr adeilad heb ganiatâd.**

**ix) Gwaredu dŵr wyneb ac aflan ar wahân o'r safle.**

**x) Gosod canopi tros y man lle y llwythir/dadlwythir y lorïau.**

**xi) Bod drysau'r adeilad i'w cau pan lwythir/dadlwythir y lorïau.**

**xii) Dim glanhau na phrosesu ar y safle.**

**xiii) Bod coed aeddfed i'w plannu ar ochr y safle a wynebai'r A497.**

**xiv) Bod ystyriaeth i'w roddi i osod larymau bagio ar y lorïau (white noise alarms)**

**b) Cyflwyno adroddiad monitro i Bwyllgor Ardal Dwyfor ymhen chwe mis ac yna ymhen blwyddyn.**

(B) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol oedd wedi dod i law ers i'r cais gael ei gyflwyno, gan gynnwys y rhestr o bolisïau cynllunio perthnasol mwyaf diweddar yn dilyn mabwysiadu'r CDU ynghyd ag amodau cynllunio llawn;

(C) Cafwyd cyflwyniad gweledol o'r safle a'r ardal o'i amgylch, a rhoddwyd braslun o'r cais a defnydd o'r adeilad gan y Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio.

(i) Adroddwyd fod y cais ar gyfer defnyddio adeilad presennol i storio, didoli a throsglwyddo deunyddiau wedi'u hailgylchu ynghyd â defnydd storfa a swyddfeydd presennol. Pwysleisiwyd nad oedd bwriad i gludo, didol na throsglwyddo gwastraff pydradwy ar y safle. Byddai'r safle llwytho a dadlwytho wedi ei leoli ochr ystâd i'r adeilad fel na fyddai'n wynebu tai ystâd Awel y Grug na'r brifford A497.

(ii) Eglurwyd bod y cais wedi ei gyflwyno gan y Cyngor, gyda'r bwriad o gyrraedd targedau ailgylchu a hyrwyddo polisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol i leihau gwastraff tirlenwir, a bod y cais yn cydymffurfio â nifer o bolisïau eraill y CDU. Yn ogystal, roedd yn unol â pholisïau cenedlaethol o safbwynt defnyddio stadau diwydiannol ar gyfer mentrau fel hyn.

(iii) Nodwyd yr ymatebwyd i sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgynghori. Roedd trigolion a busnesau cyfagos wedi mynegi pryderon ynglŷn â llygredd a sŵn, a bod y Pwyllgor Cynllunio Canolog wedi gosod amodau i reoli sŵn, atal llygredd dwr, rheoli defnydd o'r safle a.y.b, - er mwyn lleddfu pryderon a lliniaru effaith ar fwynderau preswyl y trigolion cyfagos, a busnesau gerllaw.

Pwysleisiodd y Rheolwr na ddylid gwrthod cais cynllunio os oedd yn bosibl ei wneud yn dderbyniol gydag amodau.

(CH) Eglurodd y Swyddog Monitro bod gan aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio Canolog a Phwyllgor Ardal Dwyfor yr hawl i drafod a phleidleisio ar y mater.

(D) Cynigiwyd ac eiliwyd penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog. Pwysleisiodd y cynigydd bod y cais wed derbyn sylw trwyadl iawn, a'i fod yn syrthio o fewn fframweithiau cynllunio ac ailgylchu. Ymhellach roedd y Pwyllgor Cynllunio Canolog wedi gosod amodau caeth iawn i reoli'r sefyllfa a Phwyllgor Ardal Dwyfor wedi gofyn am adroddiadau monitro cyson er sicrhau cydymffurfiaeth a'r amodau.

(DD) Adroddodd yr aelod lleol ei fod yn gwrthwynebu'r cais, a'i fod yn awyddus i warchod buddiannau'r gymuned leol. Nododd bod aelodau ardal Porthmadog, a Chyngor Tref Porthmadog, yn gwrthwynebu'r cais, a bod mwyafrif llethol aelodau Pwyllgor Cynllunio Dwyfor wedi gwrthod y cais. Pwysleisiodd bod busnesau lleol ynghyd â phreswylwyr cyfagos yn bryderus iawn ynglŷn â'r bwriad, a mynegodd anfodlonrwydd parthed ymgynghori annigonol,

Eglurodd ei fod o'r farn nad oedd y cais yn cydymffurfio ag amryw o'r polisïau, sef polisïau yn ymwneud â chyfleusterau rheoli gwastraff, datblygiad a allai achosi llygredd, cyflogaeth, sŵn a mwynderau. Hefyd roedd yn groes i bolisïau cenedlaethol sŵn a gwastraff.

Roedd yr aelod yn derbyn bod angen am ddatblygiad o'r fath, ond roedd ar ddeall bod y safle'n rhy fychan ac mai byr oes oedd iddo. Nid oedd yn argyhoeddedig bod digon o waith ymchwil wedi ei gyflawni i ganfod safle mwy addas, a fyddai'n ddefnyddiol i'r Cyngor am flynyddoedd i ddod.

Nododd aelodau eraill eu bod hwythau'n amau dilysrwydd y cais o safbwynt llawer o bolisïau lleol a chenedlaethol.

(E) Ymatebodd y swyddogion i sylwadau'r aelodau.

Atgoffwyd yr aelodau o farn broffesiynol y swyddogion sef bod y penderfyniad yn unol â pholisïau cynllunio perthnasol y Cynllun Datblygu Unedol, yn ogystal â chanllawiau cynllunio rhanbarthol a chenedlaethol, ac nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros wrthod y cais. Byddai gwyrdroi penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio Canolog yn groes i bolisïau cynllunio lleol sydd wedi eu mabwysiadu'n ddiweddar iawn gan y Cyngor Llawn. Hefyd byddai gwrthod y cais yn gwyro oddi wrth ganllawiau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol a gallai danseilio'r Cyngor o ran ei brosesau cynllunio.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Gwrthod penderfyniad Pwyllgor Cynllunio Canolog am nad yw'n cydymffurfio'n llawn â pholisïau'r CDU, sef, B23 (mwynderau), C22 (cyfleusterau rheoli gwastraff), D2 (safleoedd diwydiannol), CH33 (diogelwch ar ffyrdd a strydoedd), Polisi Strategol 16 (Cyflogaeth), NCT 11 (Sŵn) a NCT 21 (Gwastraff), ac am na chyflawnwyd digon o waith i geisio sicrhau safle y gellir ei ddatblygu ar gyfer y dyfodol;**

**(ii) Gofyn i'r swyddogion chwilio am safle y gellir ei defnyddio am flynyddoedd i ddod.**

**19 RHYBUDD O GYNNIG**

(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Gwilym Euros Roberts o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

***"Fod y Cyngor hwn yn gwarchod cyllideb ysgolion cynradd y Sir am 3 blynedd er mwyn rhoi cyfle i'r Cyngor, mewn cydweithrediad â mudiadau eraill (Cymdeithas yr Iaith, Ffederasiwn Llywodraethwyr ayb), roi pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad, drwy drafod a lobïo, er mwyn sicrhau statws, amodau a chyllidebau sydd yn cyfateb â'r hyn a gynigir i ysgolion cynradd yn Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.***

***Yn y cyfamser fod y Cyngor hwn yn ymatal rhag ad-drefnu ysgolion cynradd y Sir er mwyn i'r broses uchod fynd rhagddo gyda phob tegwch".***

Ymhelaethodd yr aelod ar ei gynnig. Eglurodd bod y bwriad i gau 5 ysgol gynradd ym Mro Dysynni, wedi ei ysgogi i ymchwilio i'r dull o gyllido ysgolion cynradd. Roedd wedi dod i'r casgliad bod trefniadau cyllido'r Cynulliad a Chyngor Gwynedd yn ddiffygiol. Nododd bod llai o arian yn cael ei wario ar addysg plant sector cynradd yng Ngwynedd o gymharu â gwledydd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a bod angen unioni'r sefyllfa.

(ii) Adroddodd yr Arweinydd Addysg bod Strategaeth Arbedion wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor, a bod y broses ddemocratiaid o sefydlu blaenoriaethau'r Cyngor yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac ni ddylid rhagfarnu'r broses honno.

Roedd Strategaeth Trefniadaeth Ysgolion Gwynedd wedi ei fabwysiadu'n ddiwrthwynebiad gan y Cyngor yn Ebrill 2009, a bod angen i'r prosesau symud ymlaen yn ddi-oed.

Nododd bod negeseuon cynyddol o du'r ysgolion yn gofyn am gyflymu'r broses, a bod yr ansicrwydd yn niweidiol ynddo'i hun - heb son am effaith hirdymor diffyg cynllunio a buddsoddi strategol hanesyddol. Pwysleisiodd y byddai rhagor o oedi yn fwy niweidiol i benaethiaid ac athrawon, a hefyd i ansawdd addysg. Pwysleisiodd bod y Cyngor wedi ymgysylltu ac ymgynghori'n drwyadl gyda'r cymunedau, a bod angen symud i benderfyniad erbyn hyn.

Cyfeiriwyd at lwyddiant diweddar y Cyngor i gael arian o gronfa buddsoddi cyfalaf y Cynulliad ar gyfer adeiladu ysgol newydd i ardal yr Hendre yng Nghaernarfon. Pwysleisiwyd na fyddai'r cais wedi llwyddo oni bai bod y Cyngor wedi gallu dangos bod strategaeth glir yn ei lle ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd y sir, Nodwyd bod y Cyngor wedi methu a hawlio arian cyfalaf oddi wrth y Cynulliad yn y gorffennol oherwydd diffyg strategaeth.

O safbwynt statws ysgolion gwledig, nododd aelod ei bod wedi ymchwilio'n drwyadl i statws ysgolion gwledig yng ngwledydd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac nad oedd rhagdybiaeth yn erbyn eu cau yn y gwledydd hynny. Nid oedd statws is i ysgolion gwledig yng Ngwynedd, a phwysleisiodd bod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd, a fabwysiadwyd yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor, wedi ei sylfaenu ar resymeg glir a chadarn.

Roedd aelod arall o'r farn nad oedd dyhead lleol i gau ysgolion yn nalgylch Tywyn, a dylid gwrando ar farn y gymuned yn dilyn ymgynghori.

Hefyd, nododd aelod nad oedd cwantwm arbedion y gwasanaeth addysg yn cynnwys darganfod arbedion trwy gau ysgolion, ac yn sgil hynny nid oedd oedi'r broses yn effeithio ar y strategaeth arbedion.

Adroddodd y Pennaeth Addysg bod y Gweithgor Arbedion wedi rhoddi sylw i'r gyllideb ddatganoldedig i ysgolion. Eglurwyd y byddai unrhyw doriadau'n arwain at gynyddu maint dosbarthiadau, a bod y penaethiaid oedd yn bresennol yn y gweithgor yn ffafrio ail-gylchu arian yn y gyfundrefn drwy ad-drefnu ysgolion. Pwysleisiodd bod llawer mwy o ymwybyddiaeth erbyn hyn ymysg penaethiaid cynradd ynglŷn ag effaith unrhyw strategaeth ariannol ar y sefyllfa. Roedd dymuniad gan ysgolion canolig ac ysgolion mawr i ad-drefnu ysgolion - fel bod modd tynnu'r arian sydd ar gael i'w gylchdroi yn y sector. Atgoffwyd yr aelodau bod addewid yn y strategaeth ad-drefnu ysgolion y byddai unrhyw arbedion yn cael eu diogelu a'u hailgylchu o fewn y gyfundrefn addysg.

Mewn perthynas â thalgylch Tywyn eglurodd ei fod yn bryderus ynglŷn ag amgylchiadau ac amodau gwaith penaethiaid y dalgylch. Eglurodd eu bod dan straen oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol , a byddai gohirio penderfyniad yn ychwanegu at yr ansicrwydd, sydd wedi bodoli ers blynyddoedd lawer. Roedd gweithluoedd yr ysgolion hefyd yn gofyn i'r Cyngor ddod i benderfyniad buan ynglŷn â'r mater. Pwysleisiodd y bydd oedi pellach yn cynyddu'r ansicrwydd, ac yn debygol o effeithio ar ansawdd yr addysg a gynigir i'r plant. Atgoffwyd yr aelodau bod ansawdd addysg yn un o amcanion y Strategaeth sydd wedi derbyn sêl bendith y Cyngor, a bod angen canolbwyntio ar hyn yn ogystal.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol

**O blaid: (18)** Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Anwen Davies, T G Ellis, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Eric Merfyn Jones, Eryl Jones-Williams, Llinos Merks, Peter Read, Gwilym Euros Roberts, Guto Rhys Tomos, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright

**Yn erbyn (32)** Y Cynghorwyr: Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Margaret Griffith, Siân Gwenllïan, O P Huws, Ann Lloyd Jones, Dai Rees Jones, John Gwilym Jones, John Wynn Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, Dewi Lewis, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, J.W.Williams a R H Wyn Williams

**PENDERFYNWYD peidio mabwysiadu'r cynnig.**

(ii) Gofynnodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd am gael gohirio y rybudd o gynnig canlynol oherwydd bod llawer o aelodau wedi gadael y cyfarfod.

***"Bod y Cyngor hwn yn cyfyngu cyfrifoldeb y Pwyllgor Cynllunio Canolog i drafod materion cynllunio sy'n berthnasol i Wynedd yn ei chyfanrwydd, megis chwarelu, mwyngloddio, llifogydd a'r diwydiant ynni ac yn y blaen, gan adael y Pwyllgorau Cynllunio Ardal i ymdrin â cheisiadau cynllunio perthnasol i'w hardaloedd ac yn atebol i'r Cyngor Llawn"***

**PENDERFYNWYD gohirio trafod y mater tan gyfarfod nesaf y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2009.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 p.m. a daeth i ben am 6.20 p.m.**